# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-12-10 : Papur 1 : 26 Mai 2010**

## Craffu ar Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i Gweithrediad

### Cyflwyniad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Pwrpas

1. Mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn cynnal ymchwiliad i'r Strategaeth Amgylcheddol a'i gweithrediad.

### Y Strategaeth Amgylcheddol

2. Cyhoeddwyd y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru ym mis Mai 2006, ac mae'n pennu gweledigaeth 20 mlynedd ar gyfer amgylchedd Cymru. Perthyn iddi saith prif thema, ac mae'n pennu 39 o amcanion amgylcheddol lefel uchel a fydd, gyda'i gilydd, yn cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mesurir cynnydd yn erbyn 103 o ddangosyddion sydd wedi'u cysylltu â'r canlyniadau.

3. Ynghlwm wrth y Strategaeth Amgylcheddol gyntaf ceid Cynllun Gweithredu a oedd yn cynnwys 62 o gamau gweithredu a oedd yn cyfrannu at y 39 o ganlyniadau. Ym mis Medi 2007, cyhoeddwyd adroddiad cynnydd, a oedd yn crynhoi data a gwybodaeth ynglŷn â'r dangosyddion, yn ogystal â chrynhoi cynnydd gyda'r cynllun gweithredu.

4. Ym mis Hydref 2008, yn dilyn ymgynghoriad 6-wythnos ar y we, lansiwyd ail Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol, ar gyfer y cyfnod 2008-11. Mae hwn yn cynnwys 41 o gamau gweithredu newydd, gyda 22 o wahanol randdeiliaid yng Nghymru. Mae'r ail Gynllun Gweithredu yn cydnabod y bydd polisïau a rhaglenni eraill o eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru, a ffrydiau gwaith cyfredol eraill yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol. Nid yw'r ail Gynllun Gweithredu yn dyblygu'r ymdrech hon, ac nid yw ychwaith yn ailadrodd sbardunau rheoleiddiol a deddfwriaethol cyfredol eraill. Pedwar prif bwrpas yr ail Gynllun Gweithredu yw:

Yn gyntaf, sbarduno gweithredu er mwyn cyflawni amgylchedd gwell;

Yn ail, hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth gyda phob rhanddeiliad a phartner allweddol;

Yn drydydd, annog ymgysylltu â phobl, er mwyn i bawb allu deall ein hamgylchedd naturiol, ac elwa ohono; ac

Yn bedwerydd, sicrhau cynnydd gyda chyflawni ein canlyniadau amgylcheddol ym mhob cyswllt.

5. Dynodir camau gweithredu Cynllun Gweithredu Strategaeth Amgylcheddol 2008 - 11 fel targedau perfformiad yn llythyrau cylch gwaith cyrff a noddir megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, yn ogystal ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, gan helpu i sicrhau eu bod yn eu cyflawni mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad. Ar ben hynny, mae fy Ngrŵp Cyfeirio ar y Strategaeth Amgylcheddol, sy'n cynnwys aelodau o'n holl bartneriaid sy'n ymwneud â'r Strategaeth Amgylcheddol, yn darparu cyngor a mewnbwn gwerthfawr rheolaidd yng nghyswllt cyflawni'r camau gweithredu.

### Y Strategaeth Amgylcheddol - adrodd

6. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Fwletin Ystadegol Cyflwr yr Amgylchedd, yn cofnodi'r cynnydd yn erbyn dangosyddion ein Strategaeth Amgylcheddol, wedi'i drefnu dan chwe phrif thema'r Strategaeth Amgylcheddol.

7. Mae gwaith yn parhau gyda chyhoeddi'r adroddiad ynglŷn â Chyflwr yr Amgylchedd ac adroddiadau interim yn flynyddol. Mae'r adroddiadau hyn yn olrhain cynnydd Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol o ran cyflawni ei 39 o amcanion. Amgaeir adroddiad mis Rhagfyr 2009 fel atodiad i'r papur hwn.

8. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, CLlLC a Chyswllt Amgylchedd Cymru i ddarparu adroddiad cynhwysfawr ar gyfer y dangosyddion, a datblygu'r broses o gasglu data ar gyfer adrodd yn eu cylch. Prif ffocws y rhaglen wella yw datblygu agweddau lle na cheir na dull na data, fel a ganlyn:

Ar gyfer 15 o ddangosyddion lle nad oes unrhyw ddata, eir ati i gaffael data;

Ar gyfer 8 o ddangosyddion, mae dulliau casglu data'n cael eu datblygu drwy raglen ymchwil;

Cyfeirir 5 o ddangosyddion yn ôl i'r Grŵp Cyfeirio, gan nad ydynt yn ymarferol.

9. Pan fydd raid, mae'n bosibl y bydd angen data procsi i ddynodi tueddiadau, ond ni fyddant yn ystadegol gadarn.

10. Lansiwyd Cynllun Blynyddol Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol ym mis Tachwedd 2009. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn hefyd ynghlwm. Adroddai:

gynnydd yn erbyn y 41 o gamau gweithredu yn yr ail Gynllun Gweithredu, ynghyd â chynnydd yn erbyn y pum cam gweithredu 'byw' a oedd yn weddill ers y Cynllun Gweithredu cyntaf, gan ddangos sut mae'r camau hyn wedi'u gweithredu gan amrywiol bartneriaid. Roedd

hefyd yn cynnwys:

datganiad ynghylch sut y glynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth Adran 40(1) Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006;

amrywiol astudiaethau achos yn darlunio arferion da o ran cyflawni canlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol, a ddarparwyd gan Gyswllt Amgylchedd Cymru fel rhan o'u prosesau adrodd i ni. Byddem yn dymuno parhau i ddefnyddio astudiaethau achos a ddarperir gan ein partneriaid, gan gynnwys Cyswllt Amgylchedd Cymru, i ddarlunio Cynllun Gweithredu nesaf y Strategaeth Amgylcheddol.

11. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo bioamrywiaeth, ac fe'i dilynir gan ystod o gamau gweithredu, gan gynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol i benodi ysgogwyr bioamrywiaeth, a chanllawiau i holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â chymhwyso'r ddyletswydd.

## Cynllun Datblygu Cynaliadwy a Chynllun Gweithredu

12. Dan Adran 79 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae hi'n ddyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru feddu ar Gynllun sy'n pennu sut y maent yn bwriadu cynnig hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Lansiwyd ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, ym mis Mai 2009. Mae'n pennu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o Gymru gynaliadwy, gan gadarnhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth y Cynulliad. Yr wyf i, a Gweinidogion eraill, eisoes wedi darparu tystiolaeth ac ymddangos ger bron y Pwyllgor hwn yng nghyswllt y camau yr ydym wedi'u gweithredu ledled Llywodraeth Cynulliad Cymru i wreiddio datblygu cynaliadwy fel ein prif egwyddor drefniadol, ac yr wyf wedi croesawu adroddiad y Pwyllgor ynghylch hyn.

13. Yn ôl ei union natur, mae'r Cynllun yn gosod y cyd-destun ar gyfer cyflawni holl ganlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol.

## Polisi Bioamrywiaeth

14. Cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig ar 19 Ionawr 2010 ynglŷn â chamau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt bioamrywiaeth. Yr oedd y Datganiad hwn hefyd yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i gynhyrchu Fframwaith Amgylchedd Naturiol newydd yn ddiweddarach eleni a fydd yn anelu at sicrhau ffocws cryfach ar dir cynaliadwy a rheolaeth forol, ar sail y gwasanaethau ecosystem y maent yn eu darparu.

15. Cytunodd y Cabinet mai Datblygu Cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol ein holl waith, ac mae gwella a gwarchod bioamrywiaeth yn elfen allweddol o'r dull gweithredu hwn. Byddaf yn ymgynghori'n glos â'm cyd-Weinidogion ynglŷn â datblygiad y Fframwaith newydd.

16. Y Fframwaith Amgylchedd Naturiol fydd y sail ar gyfer gwreiddio datblygu cynaliadwy yn well yn holl bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'u cyflawni, er mwyn i bobl Cymru allu parhau i elwa o wasanaethau ecosystem yn wyneb newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill. Drwy adeiladu ar bartneriaethau cydweithredu cryf a chadarnhaol cyfredol, a thrwy gydweithio'n glos â'r cyhoedd, byd busnes a'r sector gwirfoddol, byddwn yn sicrhau bod y Fframwaith yn sicrhau agwedd partneriaeth fwy cydlynol tuag at warchod a gwella ein hamgylchedd naturiol a, thrwy hynny, ddarparu dull gweithredu mwy effeithiol tuag at reoli cynefinoedd/rhywogaethau. Y nod yw cyhoeddi Fframwaith drafft ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ym mis Medi 2010.

Canlyniadau allweddol y Strategaeth Amgylcheddol a gynhelir gan y thema hon yw: 19, 20 a 21

## Strategaeth Gwastraff

17. Cyfeirir at, a chwmpasir, y dyhead a'r pedwar canlyniad yng nghyswllt gwastraff a bennir yn y Strategaeth Amgylcheddol ledled y Strategaeth Wastraff Cymru ddrafft, Tuag At Ddyfodol Diwastraff, y buom yn ymgynghori yn ei chylch y llynedd, ac y disgwylir y fersiwn derfynol ohoni yng Ngwanwyn 2010. Bwriedir i gynigion y strategaeth ddatblygu Cymru'n genedl ddiwastraff erbyn 2050 - lleihau cyfraniad gwastraff i ôl-troed ecolegol Cymru, cynhyrchu dim gwastraff yn y tymor hir, cynllunio ar gyfer atal gwastraff a chynhyrchu a defnyddio cynaliadwy. Mae'r strategaeth hefyd yn hyrwyddo cymdeithas ailgylchu gref erbyn 2025 - o leiaf 70% o ailgylchu ledled pob sector, gwahanu deunydd eildro yn eu tarddle, ailgylchu dolen gaeedig ac unrhyw wastraff gweddilliol yn diflannu'n raddol o dirlenwi.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 7, 8, 9, 10 a 12

## Newid yn yr Hinsawdd

18. Mae cymryd camau cadarn a chyson i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth allweddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Adlewyrchir ein hymrwymiad yn Cymru'n Un, agenda'r Llywodraeth ac fe'i cyflawnir drwy ein Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd dros Gymru.

19. Ein prif nod yw sicrhau lleihad o 3% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol o 2011 ymlaen mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Dylai hyn esgor ar ostyngiad o 40% mewn allyriadau erbyn 2020, yn erbyn llinell sylfaen 1990. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn mabwysiadu agwedd strategol tuag at addasu i newid yn yr hinsawdd er mwyn deall yn well effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, a darparu cefnogaeth a chyngor y bydd eu hangen ar sefydliadau a chymunedau ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd i'r dyfodol.

20. Yn ystod 2009, buom yn ymgynghori ynglŷn â Datganiad Polisi a Rhaglen Weithredu Lefel Uchel er mwyn goleuo datblygiad Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Yn wyneb yr ymgynghoriadau hyn, cyfraniadau gan Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr

Hinsawdd a Phwyllgor y Deyrnas Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, a chyfraniadau pellach gan adrannau Llywodraeth y Cynulliad, yr ydym yn awr yn mireinio'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a chynlluniau cysylltiedig ar gyfer cyflawni, i'w cyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

21. Bydd y Strategaeth derfynol yn cadarnhau'r mesurau ar gyfer gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru, ein targed gostwng allyriadau ym mhob sector, a'n fframwaith ar gyfer cefnogi gwaith addasu yng Nghymru. Bydd adroddiadau cynnydd ynglŷn â chyflawni ein hamcanion newid yn yr hinsawdd, fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd (2008), yn destun adolygiad blynyddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

22. Sefydlwyd Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ym mis Rhagfyr 2007 i gefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau gweithredu ar newid yn yr hinsawdd ledled Cymru a helpu i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaeth ar newid yn yr hinsawdd yn Cymru'n Un. Cadeirydd y Comisiwn yw Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r pedair prif blaid wleidyddol, sectorau allweddol, a sefydliadau arbenigol, gyda'r bwriad o gronni consensws ynghylch y gweithredu sydd ei angen mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd, rhoi arweiniad o ran mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, y naill a'r llall, a gwneud argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad ynglŷn â'r camau sydd angen eu gweithredu.

23. Cefnogwyd y Comisiwn gan nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen yn cynnig barn arbenigol ynglŷn â materion penodol y mae'r Comisiwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain wedi cynnwys:

Grŵp gorchwyl a gorffen addasu;

Grŵp defnydd tir a newid yn yr hinsawdd; a

Grŵp gorchwyl a gorffen Busnes a Thrafnidiaeth

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 7, 8 a 25.

### Strategaeth Swyddi Gwyrdd

24. Mae'r strategaeth hon yn un o ymrwymiadau Cymru'n Un a'i phwrpas yw sicrhau bod busnesau yng Nghymru'n gallu parhau'n gystadleuol mewn byd sy'n cael ei gyfyngu fwyfwy gan garbon, a manteisio i'r eithaf ar gyfran Cymru o'r cyfleoedd masnachol a fydd yn codi.

25. Y nod cyffredinol yw sicrhau economi cryf, sefydlog a chynaliadwy yng Nghymru, sy'n gallu parhau i ddatblygu wrth sefydlogi ac yna leihau ei ddefnydd o adnoddau naturiol a lliniaru ei effaith ar newid yn yr hinsawdd.

26 . Bydd gweithgarwch adfywio wedi'i seilio'n gadarn ar egwyddorion cynaliadwyedd. Byddant yn cynnwys cymunedau, ac ymgysylltu â hwy, i greu seilwaith ar gyfer y dyfodol a fydd yn ffafrio ffyrdd cynaliadwy o fyw a gweithio.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 4, 7, 8, 9, 10, 12, 14, 18, 19 a 25.

### Strategaeth Pysgodfeydd Cymru

27. Dyma strategaeth dymor hir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer rheoli a datblygu pysgodfeydd yng Nghymru ar draws holl sectorau dyframaeth, pysgodfeydd masnachol a physgodfeydd hamdden ar gyfer 2020. Gweledigaeth Strategaeth Pysgodfeydd Cymru yw cefnogi datblygiad pysgodfeydd hyfyw a chynaliadwy yng Nghymru fel rhan anhepgor o bolisïau cydlynol ar gyfer diogelu'r amgylchedd. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd datblygu a rheoli pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy fel rhan o ecosystemau iach a chynhyrchiol. Mae Cynlluniau Gweithredu i gyflawni nodau'r Strategaeth wedi cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid.

Bydd y Strategaeth a'r Cynlluniau Gweithredu yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 20 a 22.

### Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad "Creu Dyfodol Cadarn" - strategaeth newydd ar gyfer ffermio a diwydiannau bwyd

28. Bydd fersiwn derfynol "Creu Dyfodol Cadarn" yn darparu strategaeth ddiwygiedig ar gyfer ffermio a diwydiannau bwyd, gyda nod cyffredinol o gefnogi datblygu dyfodol proffidiol ar gyfer ffermio a'r diwydiant prosesu bwyd cysylltiedig, tra'n diogelu yr un pryd les yr amgylchedd, lliniaru newid yn yr hinsawdd a pharhau i gefnogi'r angen i gynyddu hyfywedd a ffyniant ein cymunedau gwledig. Mae'n cydnabod rôl allweddol rheolwyr tir gwledig a ffermwyr yn helpu i gyflawni bioamrywiaeth, diogelu pridd a rheoli carbon a dŵr.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 7, 8, 9, 11, 12, 13, 14, 16, 20, 23, 34, 35 a 36.

### Cynnal y Tir - adolygu camau rheoli tir dan Echel II Cynllun Datblygu Cynllun Gwledig Cymru 2007-13

29. Cynlluniwyd Glastir, cynllun amaeth-amgylchedd newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ganiatáu Llywodraeth y Cynulliad i ddigolledu ffermwyr am gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. Bydd yn canolbwyntio ar sawl maes allweddol - newid yn yr hinsawdd, dŵr a sicrhau allbynnau gwasanaethau ecosystemau, gan gynnwys bioamrywiaeth. Daw'n weithredol ar 1af Ionawr 2012.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 8, 13, 16, 19, 20, 21, 23, 26, 31 a 35.

### Coetiroedd i Gymru - strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer coed a choetiroedd

30. Adolygwyd y strategaeth Coetiroedd i Gymru, yn rhannol er mwyn ystyried yr angen i wella'r gwasanaethau ecosystem y gall coetiroedd eu darparu. Ei nod yw ehangu coetiroedd cynhenid Cymru, gwella'r rheolaeth dros goetiroedd a rhywogaethau cynhenid cyfredol, gyda mwy o bwyslais ar warchod bioamrywiaeth, safleoedd dynodedig a choetir hynafol, ac addasu coetiroedd ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd darparu mynediad i goed a choetiroedd, gan annog hamdden i bawb, ar gyfer iechyd a lles pobl. Mae hefyd yn pennu rôl bosibl ar gyfer coed a choetiroedd yng nghyswllt defnydd tir, fel ateb i heriau amgylcheddol sy'n berthnasol i nifer o ganlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol.

31. Mae'r cyfryngau gweithredu allweddol yn cynnwys cynllunio dyluniad coedwigoedd ar gyfer ystâd coetir y Cynulliad, ail-alinio cynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru a hwyluso cyflawni drwy randdeiliaid eraill.

Gyda'i gilydd, bydd y strategaeth yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 7, 8, 16, 18, 19, 20, 21, 23, 27, 29, 35 a 36.

### Diweddaru Cynllun Gofodol Cymru

32. Mae diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008, a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn datgan bod pob Ardal Cynllun Gofodol yn cael ei chefnogi gan weithgor amgylcheddol i roi cyngor a chymorth arbenigol ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Amgylcheddol ar lefel Ardal. O ganlyniad i Gynllun Gweithredu cyntaf y Strategaeth Amgylcheddol, cynhaliodd bob ardal weithdai i ystyried materion perthnasol y Strategaeth Amgylcheddol yn eu Hardal hwy. Cytunwyd ynghylch y blaenoriaethau amgylcheddol gan bob grŵp Ardal Cynllun Gofodol Cymru, ac fe'u hadlewyrchir yn niweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008. Mae ail Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol wedi dynodi (yng ngham 33) y bydd cyfnod nesaf y Cynllun Gofodol yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Dynodwyd dwy ffrwd waith allweddol i hwyluso'r gwaith hwn ym mhob ardal:

Rhanbarthau carbon isel, i weithredu'r strategaeth newid yn yr hinsawdd ar lefel ranbarthol,

Integreiddio cynllunio seilwaith gwyrdd a glas yng nghyswllt cynllunio a chyflawni rhanbarthol, fel y treialwyd yn y prosiect ar y cyd yn Ne Ddwyrain Cymru.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 1, 2, 3, 4, 7, 8, 9 ac 11.

### Gwneud y gorau o Arfordir Cymru - Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol

33. Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer arfordir Cymru yw un lle mae asedau naturiol, diwylliannol ac economaidd y parth arfordirol, a'r gwasanaethau a ddarparant, yn cael eu cynnal a'u gwella er budd ac er mwynhad cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i ddod. Pennodd Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol Llywodraeth Cynulliad Cymru ddull gweithredu tymor-hir, holistaidd tuag at reolaeth addasol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awr yn adolygu'r strategaeth a'i gweithrediad, o fewn cyd-destun ei phwerau cynllunio gofodol newydd yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Dylai'r pwerau newydd alluogi integreiddio mwy effeithiol rhwng cynllunio morol a daearol.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 8, 19, 20, 21, 22, 23, 8, 29 a 31.

### Cynllunio Cymunedol

34. Dylai cynllunio cymunedol gyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig. O'r herwydd, dylai partneriaid cynllunio cymunedol bennu datblygu cymunedol, ac integreiddio blaenoriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, fel egwyddor allweddol yn eu strategaeth gymunedol.

35. Y strategaeth gymunedol yw strategaeth drosfwaol pob ardal awdurdod lleol, gan ddarparu gweledigaeth strategol dymor-hir, yn seiliedig ar set o uchelgeisiau a gwerthoedd cyffredin, wedi'u trafod a'u negodi â dinasyddion lleol, cymunedau a'u harweinwyr.

36. Ar ôl i'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) ddod yn gyfraith yn 2009, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori ynghylch canllawiau cynllunio cymunedol statudol newydd i adlewyrchu darpariaethau'r Mesur. Ynghlwm wrth hyn ceir cyfres o Nodiadau Cyngor anstatudol, gan gynnwys y rheiny ynghylch Datblygu Cynaliadwy, Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd. Mae'r Nodyn Cyngor Amgylcheddol yn canolbwyntio ar faterion amgylcheddol lleol, gan gynnwys bioamrywiaeth, perygl llifogydd ac addysg amgylcheddol, ac mae'n cynnig canllawiau ynglŷn â sefydlu partneriaeth i weithredu ar faterion allweddol.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 1 a 4.

### Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr

37. Lansiwyd Datganiad Sefyllfa Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Polisi Strategol ar Ddŵr ar 31 Mawrth 2009. Mae'n pennu egwyddorion a pholisïau craidd Llywodraeth y Cynulliad ynghylch nifer o feysydd allweddol yng nghyswllt dŵr yng Nghymru er mwyn helpu'r diwydiant dŵr a'i reoleiddwyr i ymateb i'r newidiadau a'r pwysau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n effeithio ar ddŵr yng Nghymru. Datblygwyd y Datganiad yng nghyd-destun yr ymrwymiadau ar gyfer dŵr yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru a pholisïau ehangach Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys Cymru'n Un a'n Cynllun Datblygu Cynaliadwy dros Gymru, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned.

38. Egwyddorion craidd y Datganiad yw sicrhau mynediad at ddŵr yfed diogel, cynnal gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth am bris fforddiadwy a chydymffurfio â goblygiadau statudol sy'n sbarduno ansawdd dŵr cyffredinol.

39. Mae'r Datganiad yn egluro safbwynt Llywodraeth y Cynulliad ynghylch mwy o gystadleuaeth, codi am ddŵr a mesuryddion, a chyflenwadau dŵr preifat a gwasanaethau carthffosiaeth, ac mae'n tanlinellu bod fforddiadwyedd yn bryder allweddol.

40. Crynhoir cynnydd dan y thema hon isod:

Mae mwy o lifogydd yn debyg o ddigwydd yn amlach o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd mewn blynyddoedd i ddod. Wrth i batrymau glawiad newid a lefelau'r môr godi, awgryma astudiaethau y bydd llifogydd ac erydu arfordirol yn digwydd yn fwy aml ac yn fwy difrifol.

Ceisiodd y Rhaglen Agweddau Newydd, a lansiwyd yn 2007, ymateb i'r heriau hyn, gan danlinellu'r peryglon i'r rheiny a oedd fwyaf agored iddynt, a rhoi cyngor ynghylch sut y gallant fynd i'r afael â hyn. Cynhelir adolygiad o'r rhaglen yn 2010.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cynnwys darpariaethau a gynlluniwyd i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r rheiny sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a bydd yn darparu mesurau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol gwell a mwy cynaliadwy ar gyfer pobl, cartrefi a busnesau.

Cyhoeddir Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn 2010, a bydd yn pennu'r polisïau, amcanion a mesurau ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Ymgynghorir ynghylch cynnwys y strategaeth yn haf 2010.

Mae trosi Cyfarwyddeb Llifogydd yr Undeb Ewropeaidd drwy Reoliadau Risg o Lifogydd 2009 yn gosod dyletswyddau newydd ar gyfer asesu, mapio a chynllunio ar gyfer perygl llifogydd ledled Cymru ar Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol. Ynghyd â'r strategaethau lleol ar gyfer rheoli perygl llifogydd sy'n ofynnol dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, bydd y wybodaeth hon yn gwella ein dealltwriaeth o'r peryglon a wynebir gan gymunedau ledled Cymru.

Fel ymateb i'r heriau hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu Rhaglen Strategol o brosiectau rheoli perygl llifogydd Ewropeaidd, gyda £36m a oedd ar gael drwy Raglenni Cyllid Ewropeaidd.

Mae cynnal cadernid Cymru yn erbyn y peryglon hyn wedi esgor ar ddatblygu perthynas waith gref rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol er mwyn canfod y peryglon sy'n debygol o ddeillio o ganlyniad i lifogydd cynyddol. Mae hyn yn cael ei weithredu drwy Grŵp Llifogydd Cymru.

Cyhoeddir Cynllun Gweithredu Codi Ymwybyddiaeth yn 2010, a bydd yn dosbarthu enghreifftiau o arferion da yng nghyswllt codi ymwybyddiaeth ynghylch perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

" "Canlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol a gynhelir gan y thema hon: 1, 3, 8, 13, 14, 15, 19, 20, 21, 22, 23, 35, 36.

## Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

42. Cafodd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr Gydsyniad Brenhinol ar 8 Ebrill 2010. Mae'r newidiadau deddfwriaethol a gynhwysir yn y Ddeddf yn ganolog i ddiweddaru'r trefniadau cyfredol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a rheoli dŵr, y naill a'r llall, ac mae'n rhoi cyfle i alinio systemau a gynlluniwyd i amddiffyn pobl, eiddo a busnesau gyda systemau a gynlluniwyd i amddiffyn yr amgylchedd ehangach.

43. Mae darpariaethau'r Ddeddf yn cynnwys:

Cyfrifoldebau statudol newydd ar gyfer rheoli perygl llifogydd - bydd Gweinidogion Cymru'n datblygu Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Bydd cynghorau sir a Chynghorau Bwrdeistrefol Sirol yn dwyn ynghyd y cyrff perthnasol, a fydd â dyletswydd i gydweithio, er mwyn datblygu strategaethau lleol ar gyfer rheoli llifogydd lleol. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn goruchwylio gweithrediad y Strategaeth Genedlaethol.

Amddiffyn asedau sy'n helpu i reoli perygl llifogydd - bydd Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol a byrddau draenio mewnol yn gallu sicrhau na fydd modd newid asedau preifat sy'n helpu i reoli perygl llifogydd heb ganiatâd. Er enghraifft, gallai gosod gât mewn wal sy'n helpu i amddiffyn ardal gynyddu perygl llifogydd.

Pwerau i gyflawni gwaith amgylcheddol - bydd Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol a byrddau draenio mewnol yn gallu rheoli lefelau dŵr er mwyn cyflawni buddiannau hamdden, cynefin a buddiannau amgylcheddol eraill.

Draenio cynaliadwy - bydd angen i systemau draenio ar gyfer pob datblygiad newydd fod yn unol â Safonau Cenedlaethol newydd er mwyn helpu i reoli a lleihau llif dŵr wyneb i'r system garthffosiaeth.

Safonau carthffos newydd - Bydd pob carthffos yn cael ei hadeiladu i safonau cytunedig i'r dyfodol er mwyn iddynt gael eu mabwysiadu a'u cynnal gan y cwmni carthffosiaeth perthnasol.

Diogelwch argaeau - amddiffynnir y cyhoedd gan drefn newydd ar gyfer diogelwch argaeau sy'n seiliedig ar berygl. Bydd yn lleihau'r baich ar argaeau rheoledig lle nad yw pobl mewn perygl, ond bydd yn cyflwyno rheoliadau mewn rhai argaeau a allai fod yn beryglus sydd, ar hyn o bryd, y tu allan i'r system.

Costau cwmnïau dŵr - ceir amddiffyniad yn erbyn costau anfforddiadwy am ddraenio dŵr ar gyfer grwpiau cymunedol megis eglwysi, sgowtiaid ac eraill. Gall costau cwmnïau dŵr i'r dyfodol gynnwys tariffau cymdeithasol ar gyfer y rheiny a fyddai, fel arall, yn cael trafferth talu eu biliau.

Amddiffyn cyflenwadau dŵr - bydd gan gwmnïau dŵr bwerau ehangach i reoli defnydd domestig dianghenraid o ddŵr mewn cyfnodau o sychdwr.

Amddiffyniad pellach i gwsmeriaid cwmnïau dŵr - ceir pwerau newydd i leihau lefel dyledion drwg, trefniadau newydd ar gyfer rheoli prosiectau seilwaith hynod beryglus a allai fygwth gallu'r cwmni dŵr i ddarparu ei wasanaethau, a threfniadau diweddaredig ar gyfer gweinyddiaeth cwmnïau dŵr, pe caent eu hunain mewn trafferthion.

Canlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol a gynhelir gan y thema hon: 1, 3, 5, 6, 8, 13, 14, 15, 31, 32, 35, 36

### Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

44. Dan delerau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'n ofynnol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu, cynnal a chymhwyso strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Yn ogystal â phennu polisïau ac amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, rhaid i'r strategaeth gynnwys datganiad ynglŷn â sut mae'n cyfrannu at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach Gweinidogion.

45. Bydd y strategaeth yn cadarnhau'r trosglwyddiad o'r agwedd draddodiadol tuag at lifogydd ac erydu arfordirol a oedd yn seiliedig ar amddiffyn, i'r agwedd fwy holistaidd o reoli perygl a argymhellir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy gyfrwng y Rhaglen Agwedd Newydd a lansiwyd yn 2007. Mae rheoli perygl yn golygu rheoli amlder yn ogystal â chanlyniadau achosion o lifogydd ac erydu arfordirol ac mae'n argymell gweithio'n unol â phrosesau naturiol i gyflawni atebion cynaliadwy.

46. Ymgynghorir ynghylch y strategaeth genedlaethol yn haf 2010.

" "Canlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol a gynhelir gan y thema hon: 1, 3, 5, 6, 8, 13, 14, 15, 17, 31, 32, 35, 36

### Cynlluniau Rheoli Basn Afon

47. Ym mis Rhagfyr 2009, cymeradwyodd Gweinidogion Cymru dri Chynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Cymru (un yn gyfan gwbl yng Nghymru, Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, ac mae'r ddwy ardal arall yn drawsffiniol, Ardal Basn Afon Hafren ac Ardal Basn Afon Dyfrdwy) a fydd yn sicrhau agwedd rheoli basn afon strategol tuag at ein hamgylchedd dŵr a thir. Mae'r Cynlluniau yn gam pwysig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, y darn mwyaf sylweddol o ddeddfwriaeth dŵr gan yr Undeb Ewropeaidd cyn belled, ac roeddent yn golygu pennu amcanion amgylcheddol ar gyfer pob dŵr daear a dŵr wyneb (gan gynnwys aberoedd a dyfroedd arfordirol) o fewn yr ardal basn afon, a llunio rhaglen o fesurau i gyflawni'r amcanion hynny.

" "Canlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol a gynhelir gan y thema hon: 1, 3, 8, 13, 14, 15, 19, 20, 21, 22, 23, 35, 36.

### Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

48. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhannu gweledigaeth y Deyrnas Unedig yng nghyswllt ein holl foroedd - iddynt fod yn lân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol - ac mae wedi gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae'r Ddeddf yn hwyluso cynllunio a rheoli moroedd, aberoedd ac arfordir mewn ffordd fwy integredig; mae'n rhoi gwell gwarchodaeth i ecosystemau morol a bioamrywiaeth; a gwell rheoleiddio. Mae angen ystod o gyfryngau arnom i reoli ein moroedd mewn ffordd sensitif, ac mae'r Ddeddf yn ychwanegu at y cyfryngau sydd gennym, gan roi i ni'r gallu i gynllunio mewn ffordd fwy strategol, amddiffyn ardaloedd cadwraeth pwysig a mireinio ein systemau trwyddedu a rheoli morol. Bydd yr agwedd strategol hon o fudd i bawb sy'n defnyddio'r môr drwy sicrhau'r mwyaf o fanteision cynaliadwy posibl tra'n amddiffyn adnoddau gwerthfawr yr un pryd.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 1, 2, 4, 21, 22, 23.

### Cynllunio Morol

49. Mae creu system o gynllunio morol sy'n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy yn greiddiol i'r Ddeddf. Datganiad Polisi Morol y Deyrnas Unedig fydd cam cyntaf y system newydd hon. Bydd y datganiad yn darparu'r cyd-destun polisi lefel uchel y cynllunnir Cynlluniau Morol o'i fewn ledled y Deyrnas Unedig, ac yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer trwyddedu morol a systemau awdurdodi perthnasol eraill. Gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, dechreuasom broses gyn-ymynghori ynghylch Datganiad drafft ym mis Mawrth. Bwriedir ymgynghori'n ffurfiol o fis Gorffennaf 2010 ymlaen. Y nod wedyn yw cyflwyno'r drafft ger bron pob deddfwrfa yn y Deyrnas Unedig yn ystod yr Hydref, gan arwain at fabwysiadu ffurfiol erbyn mis Ebrill 2011.

50. Gyda'r Datganiad Polisi Morol yn gosod cyd-destun strategol y Deyrnas Unedig, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu'r cynllun morol cyntaf ar gyfer moroedd Cymru dros y 2-3 blynedd nesaf. Y bwriad yw dechrau ymgynghori yn ddiweddarach yn y flwyddyn 2010 ynglŷn â'n hagwedd at gynllunio gofodol morol. Mae'r adborth o ddialog anffurfiol cychwynnol yn ffafrio cynllun cenedlaethol, gan gydnabod y ceir achosion lle bydd angen cynllunio mwy ardal-benodol oherwydd lefel a chymhlethdod y gweithgarwch dan sylw. Bydd yr agwedd yn sicrhau cysondeb, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhwng y Cynllun Morol a Chynllun Gofodol Cymru.

51. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'n holl gymdogion - gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon ac Ynys Manaw - i ddatblygu cynlluniau morol, ac yn enwedig gyda Lloegr, oherwydd ardaloedd trawsffiniol Hafren a Dyfrdwy. Er mwyn cyfrannu at sicrhau cynllunio di-dor, byddwn yn creu concordat ffurfiol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ddiweddarach eleni.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 1, 2, 4, 21, 22, 23.

### Parthau Cadwraeth Morol

52. Mae'r Ddeddf yn darparu mecanwaith newydd ar gyfer gwarchod fflora a ffawna, cynefinoedd neu fathau o gynefin neu nodweddion o ddiddordeb daearegol neu geomorffaidd drwy ddynodi Parthau Cadwraeth Morol, a fydd yn fath newydd o Ardal Forol a Warchodir. Bydd y safleoedd hyn, ynghyd â chyfryngau rheoli cyfredol, yn cyfrannu at wella bioamrywiaeth a, thrwy hynny, hyrwyddo ecosystemau morol iach a chadarn.

53. Roedd papur ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Gwarchod Moroedd Cymru - Strategaeth ddrafft ar gyfer ardaloedd morol a warchodir yng Nghymru' (Medi 2009) yn cynnwys ein hagwedd arfaethedig tuag at ddefnyddio'r mecanwaith Parth Cadwraeth Morol newydd. Mae gan Gymru eisoes nifer sylweddol o Ardaloedd Morol a Warchodir cyfredol ond, er mwyn cael rhwydwaith ecolegol-gydlynol, mae rhoi lefel uchel o warchodaeth i nifer bach o safleoedd o bwys ecolegol yn ddymunol er mwyn hyrwyddo ecosystemau morol iach a chadarn. Yr agwedd felly yw defnyddio'r mecanwaith i ddynodi nifer bach o safleoedd gyda lefelau uchel o warchodaeth. Mae'r cynllun i fod mewn sefyllfa i glustnodi safleoedd ar gyfer eu dynodi erbyn 2012. Sefydlwyd Prosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru i reoli'r broses, a bwriedir dechrau proses ymgynghori ailadroddol ynghylch opsiynau safle yn ddiweddarach eleni, i fwydo gwybodaeth i, ac arwain at, ymgynghori ffurfiol yn 2012. Yn wahanol i safleoedd a ddynodir drwy Ewrop, gall y broses ar gyfer clustnodi a dynodi Parthau Cadwraeth Morol ystyried ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 1, 2, 4, 21, 22, 23.

### Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol

54. Pwrpas allweddol y Gyfarwyddeb yw i Aelod-Wladwriaethau sicrhau Statws Amgylcheddol Da i'w hardaloedd morol erbyn 2020 drwy fabwysiadu agwedd ecosystem. Daw Gweinidogion Cymru yn Awdurdod Cymwys dros ddyfroedd mewndirol Cymru (hyd at 12 môr-filltir) dan reoliadau'r Deyrnas Unedig sy'n trosi'r Gyfarwyddeb, a ddaw i rym o Orffennaf 2010 ymlaen. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ar ddefnyddio ei hystod lawn o swyddogaethau, gan gynnwys y pwerau newydd dan Ddeddf 2009, mewn ffordd gynaliadwy i helpu i sicrhau Statws Amgylcheddol Da ar gyfer moroedd y Deyrnas Unedig.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 1, 2, 4, 21, 22, 23.

### Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio 2009-13

55. Mae'r Cynllun Gweithredu, a lansiwyd ym mis Ionawr 2009, yn dwyn ynghyd gynlluniau allweddol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phrif bartneriaid yn eu cyflawni, neu'n bwriadu eu cyflawni, i gefnogi cerdded a beicio yng Nghymru. Goruchwyliwyd datblygiad a gweithrediad y cynllun gan Grŵp Llywio sydd dan gyd-gadeiryddiaeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, a'r Dirprwy Brif Weinidog.

56. Y nod yw annog mwy o bobl i gerdded a beicio'n fwy diogel ac yn amlach, ac mae'r ystod o gamau a restrir yn y cynllun yn cael eu clystyru dan y pedair prif thema isod:

Newid Ymddygiad - Cerdded a beicio i gyfrannau'n helaethach tuag at dargedau newid yn yr hinsawdd a chodi lefelau gweithgarwch corfforol.

Teithio Cynaliadwy - wedi'i annog drwy Seilwaith Cerdded a Beicio gwell - Creu seilwaith diogel, deniadol a chyfleus ar gyfer teithiau cerddwyr a beicwyr.

Amcanion Polisi - Sicrhau bod cerdded a beicio'n cael eu cynnwys mewn polisïau, canllawiau a chyllid trawsbynciol.

Gwerthuso - Galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid darparu i olrhain cynnydd o ran cyflawni canlyniadau disgwyliedig y cynllun

.

57. Disgwylir cwblhau'r adroddiad blynyddol cyntaf ar gynnydd, yn erbyn y 30 o nodau a'r 6 o dargedau a bennwyd yn y cynllun, ym mis Mehefin 2010.

Bydd yn cyfrannu at ganlyniadau Strategaeth Amgylcheddol 7, 24, 27, 29, a 30.

Jane Davidson, AC
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Mai 2010